**SSCS2**

# Hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau – **y Grŵp Cynhaliaeth Plant**

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch cynnal neu gynhaliaeth plant a wnaed gan Grŵp Cynhaliaeth Plant yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). **Dim ond ar gyfer penderfyniadau a wnaed ar 28 Hydref 2013 neu ar ôl hynny y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon.** Dylech ddefnyddio ffurflen SSCS1 ar gyfer penderfyniadau ynghylch budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Os hoffech gael y ffurflen hon mewn fformat arall, gweler y nodyn ar dudalen 8 y ffurflen hon.

Gallwch gael mwy o ganllawiau er mwyn helpu i lenwi'r ffurflen hon yn SSCS1A *'Sut mae apelio yn erbyn penderfyniad sydd wedi'i wneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'*. Gallwch lwytho'r llyfryn i lawr neu gael gwybod ble mae modd ei gael drwy fynd ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.justice.gov.uk

### Ynghylch y ffurflen hon

Mae'r ffurflen hon yn eich helpu i ddarparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y tribiwnlys er mwyn cofrestru eich apêl. Bydd hefyd yn sicrhau bod eich apêl yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol, sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

### Sut mae llenwi'r ffurflen hon

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen hon a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU oni bai fod y ffurflen yn nodi'n wahanol.

Rhaid i chi lenwi Adrannau 1, 2, 4, 5, 6, 7 a 9

Os ydych am ddod i'r gwrandawiad, rhaid i chi lenwi Adran 8 hefyd

Os oes gennych gynrychiolydd, rhaid i chi lenwi Adran 3 hefyd

### Beth i'w gynnwys gyda'r ffurflen hon

**Rhaid** i chi gynnwys copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried** sy'n nodi'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Nid oes raid i chi gynnwys tystiolaeth/gwybodaeth yr ydych eisoes wedi'u hanfon i'r Grŵp Cynhaliaeth Plant gan y byddant yn eu hanfon atom fel rhan o'u hymateb.

## **Adran 1** YNGLŶN Â'R PENDERFYNIAD YR YDYCH YN APELIO YN EI ERBYN

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch **hysbysiad gorfodi i ailystyried**. Y llythyr a anfonwyd atoch gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant, yn esbonio eu bod wedi edrych ar eich penderfyniad eto yw hwn.

Ydy eich hysbysiad gorfodi i ailystyried yn dweud wrthych fod gennych yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os Nad ydy, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen adran 'A gaf i Apelio?' yn llyfryn SSCS1A '*Sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau*' cyn bwrw ymlaen i lenwi'r ffurflen hon.

Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod wedi atodi copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried** gyda'ch ffurflen apelio. ☐

**Cofiwch gynnwys copi o'ch hysbysiad gorfodi i ailystyried gyda'ch ffurflen apêl. Os na fyddwch yn gwneud hynny, ni allwn gofrestru eich apêl nes byddwn wedi ei derbyn.**

Nawr, ewch i Adran 2


© Hawlfraint y Goron 2018

## **Adran 2** AMDANOCH CHI

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi. Mae angen i chi hefyd ddweud eich rôl wrthym yn yr achos cynhaliaeth plant. Efallai mai chi yw'r rhiant sy'n talu neu'r rhiant sy'n derbyn y taliadau. Ticiwch y blwch priodol yn yr adran hon i ddweud wrthym am hyn.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall *(nodwch)* ____

Enw cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Dyddiad geni
__ __ / __ __ / __ __ __ __

Rhif Yswiriant Gwladol
llythrennau | rhifau | llythyren

Cod post

Rhif cyfeirnod eich cynhaliaeth plant

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Rhif ffôn symudol

**Disgrifiwch eich rôl yn yr achos cynhaliaeth plant drwy roi tic yn un o'r blychau isod:**

☐ Fi yw'r rhiant sy'n talu — *Mae hyn yn golygu mai chi yw'r sawl y gofynnwyd iddo wneud taliadau.*

☐ Fi yw'r rhiant sy'n derbyn y taliadau — *Mae hyn yn golygu mai chi yw'r sawl a fydd yn derbyn y taliadau cynhaliaeth plant.*

☐ Rwy'n barti arall — *Esboniwch eich rôl yma.*

## **Adran 3** YNGLŶN Â'CH CYNRYCHIOLYDD (os oes gennych chi un)

Mae'r adran hon ynglŷn â'ch cynrychiolydd (os oes gennych chi un)

*Yr hyn a olygwn wrth gynrychiolydd yw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan yn ffurfiol. Gall hyn fod yn sefydliad fel Canolfan Cyngor ar Bopeth neu'n wasanaeth hawliau lles, neu gall fod yn ffrind neu'n gynghorydd sy'n gwybod am faterion cynhaliaeth plant. Os byddwch yn enwi cynrychiolydd yma ac yn llofnodi Adran 9, bydd hyn yn rhoi'r awdurdod i ni ddelio â'ch cynrychiolydd ynghylch eich apêl. Os nad ydych yn siŵr am hyn, darllenwch yr adran 'Ynglŷn â'ch Cynrychiolydd' yn llyfryn canllawiau SSCS1A.*

Oes gennych chi gynrychiolydd?

☐ Oes — Oes Os oes, rhowch fanylion am yr unigolyn isod

☐ Nac oes — Os nac oes, ewch i Adran 4

Enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n cynrychioli

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cod post

Os mai sefydliad sy'n eich cynrychioli, a'ch bod yn gwybod enw'r unigolyn sy'n gweithredu ar eich rhan isod, dywedwch wrthym isod

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall *(nodwch)*

Enw cyntaf

Cyfenw

## **Adran 4** YNGLŶN Â'R UNIGOLYN ARALL YN YR ASESIAD CYNHALIAETH

Dywedwch wrthym yma am yr **unigolyn arall sy'n rhan o'r achos cynhaliaeth plant**. Gallai'r unigolyn hwn fod y rhiant sy'n gorfod gwneud y taliadau neu'r rhiant sy'n eu derbyn. Bydd yr unigolyn arall yn yr achos yn rhan o'r apêl yn awtomatig, a bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn anfon copïau o'r papurau perthnasol ato, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am yr apêl, ac yn ei wahodd i fod yn bresennol mewn unrhyw wrandawiad. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, efallai bydd mwy nag un unigolyn arall yn rhan o'r apêl.

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall *(nodwch)* ☐

Enw cyntaf yr unigolyn arall ☐

Cyfenw'r unigolyn arall ☐

Ydych chi'n gwybod cyfeiriad yr unigolyn arall? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

**Os nad ydych,** byddwn yn gofyn i'r Grŵp Cynhaliaeth Plant ddweud cyfeiriad yr unigolyn arall wrthym er mwyn i ni ysgrifennu ato ynghylch yr apêl ac anfon copïau o'r papurau ato

**Os ydych chi,** rhowch gyfeiriad yr unigolyn isod.

Cyfeiriad ☐

Cod post ☐☐☐☐ ☐☐☐

Os oes mwy nag un unigolyn yn rhan o'r asesiad, rhowch eu manylion ar dudalen ar wahân

Nawr, ewch i Adran 5

## **Adran 5** YNGLŶN Â CHYFRINACHEDD

Dan y gyfraith, mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM rannu holl dystiolaeth yr apêl â'r unigolyn arall sy'n rhan o'r achos. Mae'n bosibl felly y bydd yr unigolyn arall yn cael gwybodaeth sy'n nodi lle rydych yn byw. **Os nad ydych chi eisiau i'r unigolyn arall wybod lle rydych yn byw**, gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM rwystro hyn rhag digwydd drwy dynnu manylion cyfeiriad o unrhyw dystiolaeth sy'n cael ei hanfon at yr unigolyn arall. Nodwch isod a yw'r unigolyn arall yn gwybod lle rydych yn byw, ac a ydych am gadw eich cyfeiriad yn gyfrinachol.

A yw'r unigolyn arall yn gwybod lle rydych chi'n byw? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os nad yw, ydych chi am i ni gadw cyfeiriad eich cartref yn gyfrinachol? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os oes mwy nag un unigolyn yn rhan o'r achos, ni fydd eich cyfeiriad yn cael ei ddangos i unrhyw un arall os ydych wedi gofyn iddo gael ei gadw'n gyfrinachol.

Nawr, ewch i Adran 6

## **Adran 6** YNGLŶN Â'CH APÊL

**Sail dros apelio**

Mae arnom angen gwybod pam eich bod yn apelio yn yr adran hon. Ysgrifennwch, yn eich geiriau eich hun, y rhesymau pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad ynghylch cynhaliaeth plant. Nid oes raid i chi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU yn yr adran hon os yw eich llawysgrifen yn eglur. Os na fyddwch yn llenwi'r adran hon, bydd yn arafu'r broses o ddelio â'ch apêl ac mae'n bosibl y dychwelir y ffurflen apêl atoch. I gael rhagor o wybodaeth am seiliau dros apelio, darllenwch yr adran 'Ynglŷn â'ch Apêl' yn llyfryn canllawiau SSCS1A.

*(rhowch yr wybodaeth ar ddalen ar wahân os oes angen, a rhowch eich rhif cyfeirnod cynhaliaeth plant ar bob dalen)*

**A ydych wedi apelio mewn pryd??**

Yn ôl y gyfraith **rhaid i'ch apêl ddod i law y tribiwnlys** o fewn un mis calendr o'r dyddiad yr anfonwyd yr **hysbysiad gorfodi i ailystyried** atoch. Os bydd eich apêl yn cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn apêl hwyr, a bydd y tribiwnlys angen gwybod pam ei bod yn hwyr.

Ydy eich apêl yn hwyr?

☐ Ydy — Os ydy, rhaid i chi nodi'r rhesymau pam bod eich apêl yn hwyr isod

☐ Nac ydy — Os nac ydy, ewch i Adran 7

Os ydy eich apêl yn hwyr, rhaid i chi esbonio pam. Bydd y tribiwnlys yn ystyried eich rhesymau, a gall ymestyn y terfyn amser ar eich cyfer. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau pam bod eich apêl yn hwyr, mae'n bosibl y dychwelir eich ffurflen apelio atoch. Rhowch fanylion ynghylch pam bod eich apêl yn hwyr isod. Nid oes angen i chi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU.

Bydd gan y Grŵp Cynhaliaeth Plant a'r unigolyn/unigolion eraill sy'n rhan o'r apêl hawl i wrthod apêl hwyr os ydynt yn credu bod ganddynt sail dros wneud hyn. Bydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad.

Nawr, ewch i Adran 7

## **Adran 7** YNGLŶN Â'CH DEWIS O WRANDAWIAD

Mae pob apêl yn cael ei hystyried gan banel annibynnol. Byddwn yn trefnu i'r panel wrando ar eich apêl chi a bydd disgwyl i chi, eich cynrychiolydd neu'r unigolyn/unigolion eraill sy'n rhan o'r achos cynhaliaeth ddod i'r gwrandawiad. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno dod i'r gwrandawiad, cewch ofyn am gael penderfyniad ar yr apêl 'ar sail y papurau'. Rhowch wybod i ni isod sut hoffech i ni ddelio â'ch apêl.

| | | |
|---|---|---|
| Rwyf am fod yn bresennol mewn gwrandawiad o fy apêl | ☐ | Os ydych wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 8 ➡ |
| Rwyf am i fy apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau | ☐ | Os ydych wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 9 ➡ |

Os byddwch yn newid eich meddwl ynghylch hyn, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosib, oherwydd efallai y bydd yn rhy hwyr newid y trefniadau unwaith y bydd y gwrandawiad wedi'i drefnu. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r adran 'Ynglŷn â'ch Dewis o Wrandawiad' yn llyfryn canllawiau SSCS1A.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at yr unigolyn/unigolion eraill sy'n rhan o'r achos cynhaliaeth i ofyn sut yr hoffent i'r apêl gael ei phenderfynu. Os bydd unrhyw unigolyn **arall** yn yr apêl yn gofyn i gael mynd i wrandawiad, yna bydd gwrandawiad yn cael ei drefnu, ond eich dewis **chi** yw bod yn bresennol ai peidio.

## **Adran 8** GWRANDAWIADAU LLAFAR – EICH ANGHENION A'CH GOFYNION

Dim ond os ydych wedi dweud wrthym yn Adran 7 eich bod yn dymuno dod i'r gwrandawiad y mae'n rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn. Os ydych wedi gofyn i'ch apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau, ewch ymlaen i Adran 9 yn syth.

Yn yr adran hon, rhaid i ni ofyn nifer o gwestiynau i'n helpu ni i drefnu gwrandawiad addas i chi. Byddwn yn ceisio ystyried eich anghenion a phryd yr ydych ar gael, ond efallai na fydd yn bosibl gwneud hyn bob amser. Atebwch gwestiynau 1 i 4 er mwyn i ni gael y wybodaeth sydd ei hangen arnom. Os na fyddwch yn ateb rhai o'r cwestiynau, bydd rhaid i ni gysylltu â chi eto, a gall hyn oedi eich apêl. Nid oes raid i chi ateb y cwestiynau hyn mewn PRIFLYTHRENNAU.

**Cwestiwn 1 – Pryd y byddwch ar gael**

Cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys rhwng 10am a 5pm dydd Llun i ddydd Gwener, ac ar ddyddiau Sadwrn yn ein canolfannau mwy hefyd. Er mwyn caniatáu i chi fod yn bresennol yn eich gwrandawiad, byddwn yn ceisio trefnu amser a dyddiad yn unol â phryd y byddwch ar gael. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni yma os oes unrhyw ddyddiau o'r wythnos neu adegau o'r dydd pan **na allwch** ddod i dribiwnlys neu unrhyw ddyddiadau pryd na fyddwch ar gael oherwydd eich bod wedi trefnu gwyliau neu apwyntiadau ysbyty. Dylech ystyried pryd y byddwch ar gael yn ystod y chwe mis nesaf.

Ydych chi ar gael i ddod i wrandawiad ar unrhyw adeg?

☐ Ydw

☐ Nac ydw — Os nad ydych, rhowch wybod i ni pryd allwch chi ddim bod yn bresennol yn y blwch isod

**Cwestiwn 2 – Eich anghenion**

Dywedwch yma os oes gennych unrhyw anghenion arbennig mae angen i ni eu hystyried wrth drefnu eich gwrandawiad.

Gall hyn gynnwys pethau fel dolenni clyw neu fynediad i bobl anabl.

Oes gennych chi anghenion arbennig o gwbl?

☐ Oes — Os oes, rhowch fanylion amdanynt isod

☐ Nac oes

**Cwestiwn 3 – Eich arwyddwr neu gyfieithydd a gofynion o ran iaith**

Oes angen cyfieithydd neu arwyddwr arnoch i'ch cynorthwyo yn y gwrandawiad?

☐ Oes Os oes, rhowch wybod ym mha iaith a thafodiaith isod

☐ Nac oes

Iaith neu fath o ddehonglydd iaith arwyddion

Tafodiaith

Byddwn yn trefnu i gyfieithydd proffesiynol fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Ewch i'r adran 'Llenwi ffurflen SSCS1' yn llyfryn canllawiau SSCS1A i gael rhagor o wybodaeth am gyfieithwyr.

**Cwestiwn 4 – Eich hysbysu ynghylch gwrandawiad**

Fel arfer byddwn yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd am ddyddiad y gwrandawiad. Os byddwch yn cytuno i hynny, gallwn hefyd roi llai na 14 diwrnod o rybudd. Mae'n bosibl y bydd modd trefnu'r apêl yn gynt fel hyn, er enghraifft, os bydd apêl arall yn cael ei chanslo ac y bydd modd cynnal eich gwrandawiad chi yn ei le ar fyr rybudd.

Ydych chi'n cytuno i gael llai na 14 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrandawiad? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

## **Adran 9** EICH LLOFNOD

Rhaid i chi lofnodi eich ffurflen apêl er mwyn iddi fod yn ddilys. Os ydych wedi enwi cynrychiolydd yn Adran 3, bydd eich llofnod hefyd yn rhoi awdurdod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i ddelio â'ch cynrychiolydd pan fydd yn cysylltu â ni ar eich rhan.

Llofnod

Dyddiad (DD/MM/BBBB)

Enw

Os ydych chi'n gynrychiolydd sy'n llofnodi'r ffurflen hon ar ran yr unigolyn sy'n apelio, rhaid i chi anfon ei lofnod sy'n rhoi'r awdurdod i chi weithredu ar ei ran gyda'r ffurflen hon.

**BETH I'W WNEUD NAWR**

Mae angen i chi anfon eich ffurflen apêl **a chopi o'r hysbysiad gorfodi i ailystyried** at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

**Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr** anfonwch eich apêl i:

**HMCTS SSCS Appeals Centre**
**PO Box 1203**
**BRADFORD**
**BD1 9WP**

**Os ydych yn byw yn yr Alban** dylech anfon eich apêl i:

**HMCTS SSCS Appeals Centre**
**PO Box 27080**
**GLASGOW**
**G2 9HQ**

**RHESTR WIRIO**

Mae'n bosibl y bydd y rhestr wirio hon yn ddefnyddiol i'ch helpu chi i wneud yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom.

- ☐ Rwyf wedi cynnwys copi o'r hysbysiad gorfodi i ailystyried **(Adran 1)**
- ☐ Rwyf wedi nodi fy rôl yn yr achos cynhaliaeth plant **(Adran 2)**
- ☐ Rwyf wedi nodi'r unigolyn/unigolion eraill sy'n rhan o'r apêl **(Adran 4)**
- ☐ Rwyf wedi nodi a ydw i eisiau i'm cyfeiriad fod yn gyfrinachol **(Adran 5)**
- ☐ Rwyf wedi nodi fy sail dros apelio **(Adran 6)**
- ☐ Rwyf wedi dewis pa fath o wrandawiad yr wyf am ei gael **(Adran 7)**
- ☐ Rwyf i, neu fy nghynrychiolydd, wedi llofnodi fy ffurflen apêl **(Adran 9)**

**Fformatau Eraill**

Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras, ffoniwch 0300 123 1142 (llinell gymorth Saesneg) 0300 303 5170 (llinell gymorth Gymraeg) os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, a 0300 790 6234 os ydych yn byw yn Yr Alban.

.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter

I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024.
Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn Testun 18001 0300 790 6234.